# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 27AIN MEHEFIN 2018 AM 11.00 A.M.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd S. Morgan - Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C. Gordon (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol), B.A. Jones (Aelod Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Llywodraethu), P. Marsden (Addysg a Chyrhaeddiad), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) ac E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ar y cyd gyda:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol– Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), S. Harris (Dirprwy Swyddog Adran 151) a J. Reynolds (Rheolwr Chwaraeon a Chyfleusterau).

E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor),

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd D.V. Poole (Arweinydd y Cyngor).

### 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd datganiadau o ddiddordeb ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

### 3. COFNODION CABINET - 13EG MEHEFIN 2018

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 13eg Mehefin 2018 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

### 4. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET

Roedd yr adroddiad yn ceisio cadarnhad Blaenraglen Waith y Cyngor am gyfnod o Fehefin 2018 i Ionawr 2019.

Cynghorwyd y Cabinet bod y Flaenraglen Waith yn nodi'r adroddiadau allweddol a ddisgwylir yn ystod misoedd y misoedd i ddod a'r gofyniad cyfreithiol ar gyfer cyhoeddi rhaglenni o'r fath. Mae'r rhaglen yn ddogfen fyw ac oherwydd hynny gellid ychwanegu adroddiadau brys ac annisgwyl i'r rhaglen sy'n bellach yn cynnwys naratif manylach ar y materion allweddol.

Trafododd y Cabinet y flaenraglen waith a gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â'r adroddiadau a nodwyd ar 25ain Gorffennaf 2018 gan fod hyn wedi bod yn destun newid. Cadarnhawyd bod yr adroddiad Rheoli Asedau wedi cael ei ail-enwi a byddai'n cael ei gyflwyno fel Strategaeth Ddrafft Rheoli Asedau Cartrefi Caerffili a'i symud i ddyddiad i'w gadarnhau ym mis Medi. Byddai adroddiadau'r Cynigion Adeiladau Newydd Llety Lloches a Chartrefi Fforddiadwy hefyd yn cael eu symud i ddyddiad i'w gadarnhau ym mis Medi.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod, yn amodol ar yr uchod, yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo.

> PENDERFYNWYD, yn amodol ar ail-drefnu'r Cynlluniau Tai Lloches, Cynigion Adeiladu Newydd Cartrefi Fforddiadwy a Strategaeth Ddrafft Rheoli Asedau Cartrefi Caerffili, bod Blaenraglen Waith y Cabinet yn cael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi.

**MATERION A OEDD PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**5. STRATEGAETH DDRAFFT CHWARAEON AC ADLONIANT EGNÏOL 2019-29**

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gychwyn ymarfer ymgynghori deg wythnos gydag ystod o randdeiliaid ar Strategaeth drafft Chwaraeon a Hamdden Egnïol 2019-29.

Mae'r strategaeth ddrafft yn nodi pwrpas a chyfeiriad y dyfodol ar gyfer darparu chwaraeon a hamdden egnïol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili; mae'n sefydlu'r egwyddorion a'r weledigaeth allweddol a fydd yn llywio penderfyniadau a chamau gweithredu yn y dyfodol dros y deng mlynedd nesaf. Mae'r manteision o gael dull byw egnïol yn gorfforol i drigolion y Fwrdeistref wedi eu cofnodi'n dda ac o ystyried yr hinsawdd ariannol bresennol y mae awdurdodau lleol yn gweithredu ynddo, mae cyfeiriad strategol clir yn hanfodol.

Dywedwyd wrth y Cabinet fod y strategaeth wedi'i chyflwyno i Bwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd ar gyfer eu hystyriaeth a'u sylwadau a nodwyd bod y Cynghorydd Kevin Etheridge (Arweinydd y Blaid Annibynnol) hefyd wedi mynychu'r cyfarfod hwnnw i roi ei farn.

Cadarnhaodd y Swyddog fod sylwadau gan y Pwyllgor Craffu a'r Cynghorydd Etheridge wedi canolbwyntio ar y broses ymgynghori a oedd i fod i gychwyn ar 16eg Gorffennaf 2018. Roedd yr un ddiwethaf wedi cynnig y dylai'r broses ymgynghori gynnwys rhanddeiliaid Addysg ac Ysgolion, cyfarfod pwyllgor craffu ar y cyd â Phwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes a Phwyllgor Craffu Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles dylai ystyried galw refferendwm cyhoeddus ar y strategaeth. Gofynodd y Cyng John Bevan am sicrwydd y byddai digon o gyfleoedd i'r rhai nad oeddent yn gallu cael mynediad at opsiynau cyfryngau cymdeithasol neu ar y we i fod yn ymwybodol o'r strategaeth a rhoi sylwadau arni.

Mewn ymateb i'r cynigion a nodwyd uchod, cadarnhawyd y byddai gohebiaeth yn cael ei hanfon at bob ysgol, cynhelir Seminar Aelodau ar 9 $^{fed}$ Gorffennaf 2018, a fyddai'n rhoi cyfle i bob Aelod adolygu a roi sylwadau ar y Strategaeth. Yn ymwneud â'r galw am Refferendwm i'r Cyhoedd, byddai hyn yn fater i'r Cabinet.

O ran y trigolion heb fynediad i'r rhyngrwyd/cyfryngau cymdeithasol, cadarnhawyd bod rhaglen ymgynghori ddwys wedi'i chynllunio a byddai digon o gyfleoedd i'r rheini heb fynediad i'r cyfryngau cymdeithasol gael cynnig sylwadau, gan gynnwys Sesiynau Galw i Mewn a bydd

copïau o'r strategaeth a'r holiadur ar gael ym mhob adeilad cyhoeddus.

I gloi, cynghorwyd y Cabinet bod y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd wedi cymeradwyo'r argymhelliad i'r Cabinet eu bod yn cymeradwyo'r cynnig i gychwyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth ddrafft.

Ystyriodd y Cabinet fater Refferendwm Cyhoeddus a daeth i'r casgliad y byddai'n anodd cynnwys y cynigion eang a chwmpasog a gynhwysir yn y strategaeth mewn un cwestiwn ac felly'n amau y gellid defnyddio refferendwm at y diben hwn.

Roedd y Cabinet yn falch o nodi nad oedd y strategaeth yn canolbwyntio'n unig ar ddarpariaeth canolfannau hamdden ond hefyd yn edrych ar y darlun ehangach o ran gweithgareddau sy'n ymwneud â mesurau iechyd ataliol a gofynnodd am eglurhad mewn perthynas â thrafodaethau â gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd.  Yn dilyn hyn, holodd y Cabinet a oedd anghenion yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y fwrdeistref, yn enwedig y rhai yn y gogledd, wedi cael eu hystyried.

Cadarnhaodd y Swyddog fod y ddogfen wedi edrych ar ddarpariaeth iechyd ataliol fel parciau gwledig, llwybr beiciau ac ati. Byddai'r cyfnod ymgynghori deg wythnos, a oedd yn gyfnod ymgynghori mwy helaeth nag a gynhaliwyd yn flaenorol, yn ymgorffori ystod o rhanddeiliaid a chynghorodd y byddent yn ceisio ymgysylltu â phob rhanddeiliad perthnasol yn y broses ymgynghori.  Rhan o'r broses strategaeth oedd cwblhau Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Roedd y ddogfen fyw hon, a oedd yn cynnwys nodweddion gwarchodedig megis statws economaidd gymdeithasol, yn elfen allweddol.  Byddai edrych ar ecwiti darpariaeth fel y byddai cyfle i gefnogi a galluogi darpariaeth gan sefydliadau eraill.

Yna gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â Sesiynau Galw i Mewn a chynghorwyd y Cabinet y dylid trefnu lleoliadau ond byddent yn rhan annatod o'r broses ymgynghori. Gofynnwyd am eglurhad pellach o ran cymunedau anodd eu cyrraedd a sut y byddent yn cael eu cynnwys.  Nodwyd yn ogystal â'r Sesiynau Galw i Mewn, byddai copïau caled o'r holiadur a'r strategaeth ar gael ym mhob adeilad cyhoeddus a byddai sefydliad arall yn cael ei ddefnyddio er mwyn cyrraedd ardaloedd anodd eu cyrraedd.

Croesawodd y Cabinet y strategaeth fel un o'r rhai pwysicaf i'w chyflwyno gerbron yr Aelodau a chydnabod na allai dulliau hanesyddol o ddarparu gwasanaethau barhau o dan bwysau ariannol cyfredol ac yn y dyfodol.  Pwysleisiwyd rôl y Cynghorwyr wrth roi'r neges i'r cyhoedd ynglŷn â phwysigrwydd cwblhau holiaduron pe bai cyfraddau ymateb da i'w cyflawni.

Cynghorwyd y Cabinet y byddai'r Uned Cyfathrebu yn archwilio pob sianel sydd ar gael er mwyn tynnu sylw at y strategaeth gan gynnwys ymgysylltiad wyneb yn wyneb a gohebiaeth uniongyrchol er mwyn casglu'r data ansoddol, data defnydd a data daearyddol hanfodol hwnnw a fydd yn caniatáu i'r Aelodau i wneud penderfyniad gwybodus.  Nodwyd bod gan Gaerffili y nifer uchaf o ddilynwyr ar gyfryngau cymdeithasol yng Nghymru (30,000) a byddai'r llwyfan hwn yn cael ei ddefnyddio'n llawn.  Rhoddwyd sicrwydd y gwneir pob ymdrech i geisio ymgysylltu â phob aelod o'r gymuned.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo.  Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD cefnogi'r cynnig i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar Strategaeth ddrafft Chwaraeon a Hamdden Egnïol 2019-29 am y rhesymau a gynhwyswyd yn Adroddiad y Swyddog.

**MATERION ROEDD ANGEN ARGYMHELLION I'R CYNGOR**

## 6. ALLDRO DROS DRO AR GYFER 2017/18

Roedd yr adroddiad yn diweddaru'r Cabinet gyda manylion yr alldro dros dro ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18.

Cyfeiriwyd y Cabinet at Atodiad A, sy'n crynhoi'r sefyllfa refeniw alldro dros dro sydd yn danwariant net o £10.304miliwn. Roedd hyn yn cynnwys tanwariant o £4.07milwin ar y Cyfrif Refeniw Tai a gorwariant o £293mil ar gyfer Ysgolion.

Yn ystod y flwyddyn mae Swyddogion wedi parhau i fod yn ymwybodol o'r rhaglen barhaus o gyni ac mae gwariant wedi ei gwtogi mewn nifer o feysydd er mwyn cefnogi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r dull pwyllog hwn wedi arwain at nifer o arbedion yn cael eu cyflawni o flaen llaw ac felly cafwyd tanwariannau uwch nag y byddai'n digwydd fel arfer. Mae manylion yr amrywiadau mwy arwyddocaol yn erbyn y gyllideb yn cael eu darparu yn yr adroddiad ar gyfer pob Cyfadran.

Cyfeiriwyd y Cabinet wedyn at Atodiad B sy'n dangos symudiadau ar falans y Gronfa Gyffredinol o 1af Ebrill 2017 tan 31ainMawrth 2018 ynghyd ag ymrwymiadau y cytunwyd arnynt sydd yn gyfredol ar gyfer 2018/19. Y rhagolwg ar gyfer balans y Gronfa Gyffredinol fel yr adroddwyd i'r Cyngor ar yr 22ain Chwefror oedd £10 miliwn. Mae'r sefyllfa ddiweddaraf yn falans rhagamcanedig o £11.8miliwn ac mae'r tabl ym mharagraff 4.4 o'r adroddiad yn rhoi manylion y cynnydd hwn o £1.8miliwn.

Fel arfer, mae'r Swyddog Adran 151 yn argymell balans lleiaf y Gronfa Gyffredinol o £10miliwn sydd tua 3% o'r gyllideb refeniw net. Roedd y Cabinet yn cofio y byddai angen arbedion a ragwelir o £34milwin ar gyfer y cyfnod pedair blynedd o 2019/20 i 2022/23. Mae hyn yn amlwg yn heriol iawn ac mae'n anochel y bydd angen gwneud rhai penderfyniadau anodd iawn. Gyda hyn mewn golwg, gofynnir i'r Cabinet gefnogi argymhelliad i'r Cyngor i drosglwyddo £1.8miliwn o'r Gronfa Gyffredinol i Gronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi i ddarparu cyllid ar gyfer costau untro sy'n gysylltiedig â chyflawni arbedion i gefnogi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

O ran gwariant cyfalaf, cyfanswm y gwariant ar Raglen Cyfalaf SATC ar gyfer 2017/18 oedd £42.2 miliwn. Arweiniodd Rhaglen Gyfalaf y Gronfa Gyffredinol ar gyfer 2017/18 at gyfanswm cyllid ar gael o £55.5 miliwn gan gynnwys yr holl ddyraniadau grant yn ystod y flwyddyn ac arian Adran 106. Roedd swm o £27.4miliwn heb ei wario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae'r mwyafrif ohono yn cynrychioli llithriant sydd wedi cael ei drosglwyddo i flwyddyn ariannol 2018/19.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog a'i dîm am baratoi adroddiad alldro'r ddarpariaeth a gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â gorwariant a nodwyd yn y Gyfadran Addysg mewn perthynas â darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol. Cadarnhawyd y byddai adroddiad manwl yn dod i'r Cabinet cyn bo hir ar y mater hwn. Croesawodd y Cabinet yr adroddiad a nodwyd uchod a chydnabod yr angen i gefnogi dysgwyr mwyaf agored i niwed yn y fwrdeistref.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

ARGYMHELLWYD i'r Cyngor am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog:

(i)i nodi sefyllfa alldro dros dro 2017/18;

(ii) trosglwyddo £1.8miliwn o'r Gronfa Gyffredinol i Gronfa Wrth Gefn a Chlustnodwyd i ddarparu cyllid ar gyfer costau untro sy'n gysylltiedig â chyflawni arbedion i gefnogi'r cynllun Ariannol Tymor Canolig i gael ei gymeradwyo.

Terfynwyd y cyfarfod am 11.30 am.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar y 11eg Gorffennaf 2018.

________________________

CADEIRYDD